

# PRESS RELEASE

# DATGANIAD I'R WASG



16 December 2019

## Cardiff Music Board meets for first time

Cardiff's new Music Board met for the first time today.

The 22 members of the board, who are tasked with championing the city's music scene, protecting and promoting music from grassroots to established acts, and developing Cardiff's Music Strategy, met at City Hall on Monday 16<sup>th</sup> December.

Chair of the Music Board, Council Leader, Cllr Huw Thomas, said: "This is a significant moment in the cultural history of Wales, where industry professionals and government will begin to take forward the aspiration for Cardiff, the Capital of Wales to establish itself as an International Music City, covering all genres, at all levels and for all people across the whole city.

"We're ambitious for the future of music in Cardiff. The music sector already does a lot for the city, both culturally and economically, but we want to maximise that value and really harness the power of music for the benefit of the city and the people who live, work and visit it.

"The Music Board is going to play a significant role in helping achieve those ambitions. The Sound Diplomacy report published earlier this year set out a blueprint for how we can make Cardiff a leading player in the global Music Cities movement, and I'm looking forward to meeting with the board for the first time, and hearing their views on how we can work together to drive forward those plans."

The board members have been chosen to reflect the social diversity of Cardiff and include one of Wales's top radio DJs, the frontman of an explosive live band, the director of a leading community music charity, and one of the team behind the introduction of the Agent of Change policy in Wales.

Cabinet Member for Culture and Leisure, Cllr Peter Bradbury, said: "Cardiff's creative sector is one of its strengths - it already generates more than £1 billion of value for the economy and the growth of the UK's live music sector means there's a real opportunity here for Cardiff – and with the wide-ranging skills and experience we've got on the board, one we're well-placed to make the most of.

"Introducing a Music Board was one of the key recommendations made in the Sound Diplomacy report and two other recommendations, namely the creation of a signature music event and the introduction of musician loading zones are on the agenda at the first meeting.

"There's a lot of work to be done, but this initial board meeting marks an important milestone in our plans to incorporate music into every aspect of Cardiff's city structures from planning to licencing, social wellbeing and tourism."

(ends)

**Cardiff Council Media Advisor David Harris Tel: 029 2087 2409**

Email: [davidharris@cardiff.gov.uk](mailto:davidharris@cardiff.gov.uk)

#### NOTES TO EDITORS:

The selected board members are:

##### **1. Bethan Elfyn**

A successful radio producer, BBC presenter and TV researcher with 20 years' experience at the forefront of new music, Bethan heads up the development and strategy of BBC Cymru Wales' public value partnership with Arts Council of Wales, and Horizons/ Gorwelion - a music talent development scheme delivered by BBC Cymru Wales in partnership with Arts Council Wales to develop new, independent contemporary music in Wales

##### **2. Guto Brychan**

Chief Executive of Clwb Ifor Bach since 2012, Guto recently became Chief Executive of Swn Festival and organises the Maes B Festival for the National Eisteddfod. Guto is one of the premier promoters for live music in Wales, supporting up and coming talent in the Welsh music industry. Previously, he was Board Member and Welsh Language Officer at Welsh Music Foundation and Label Manager at Sain Records.

##### **3. Helia Phoenix**

An award-winning blogger, writer of books, and music, travel and culture journalist, for the past 20 years Helia has worked in content production, radio, film documentaries, and been published by The Guardian, Rolling Stone, and others. Helia runs one of the top city blogs in the world and in 2017, was listed as a visionary in Cardiff Life's Top 50 People building a brighter future for the city. She's currently Media Manager at Visit Wales, managing the social community and programming editorial content.

#### **4. Jon Fox**

Jon has over 25 years' experience in Planning and Place-making and is UK national planning and noise advisor to the Music Venues Trust. As a Town Planner Jon was part of the team responsible for leading on the introduction of Agent of Change policy into Wales.

#### **5. Michael Garvey**

Michael has over 20 years of music and arts industry experience in commercial, subsidised, public and charitable sectors. His career has included roles in the recording and broadcasting industries, the public funding system in England and the orchestral sector. He is currently the founding Executive Director of The Benedetti Foundation, a start-up music education charity.

#### **6. Lucy Squire**

Lucy is a Creative Industries professional with a legal background and proven track record in business and education. An active participant in the South Wales music ecology she's run successful retail, training, merchandise, record labels and events companies most notably with the brand Catapult which was based in Cardiff's Arcades until 2014. Lucy's current position is Head of Music for the University of South Wales.

#### **7. Phil Sheeran**

As the General Manager of Cardiff's Motorpoint Arena, Phil has overseen a large part of Cardiff's music economy for over a decade, bringing major international artists such as Kylie, the Pixies, One Direction and The Who to the city. Phil's role also covers Motorpoint's new smaller venue, Exit 7. He is also a member of newly formed music fund ANTHEM and a board member of FOR Cardiff.'

#### **8. Liz Hunt**

Liz Hunt is a musician, songwriter, venue owner and event organiser. Starting out as an independent promoter, she eventually moved to working in-house at various small venues booking live gigs, and has nearly 20 years' experience in Cardiff's music scene. Liz now co-owns The Moon, a non-profit grassroots venue on Womanby Street. She also organises Hub Fest, Wales Goes Pop, Cardiff Psych & Noise Fest, and industry networking events.

#### **9. Gavin Allen**

Gavin is a Lecturer in Digital Journalism at Cardiff University. Formerly Associate Editor at Mirror.co.uk, he also worked at MSN and MailOnline. During a decade with Media Wales he spent four years as a music writer on the South Wales Echo.

#### **10. Tumi Williams**

Tumi is a creative practitioner, booking agent & event organiser and frontman of Afro Cluster - a band renowned for their unique, exciting blend of afro funk and hip-hop and explosive live shows.

#### **11. Hannah Jenkins**

Hannah has worked in the cultural sector for nearly 20 years, previously as an Arts Development Manager, programming multi-venues including Market Hall Cinema, Beaufort Theatre and Abertillery Community Theatre as well as managing an extensive community arts initiative across the Borough. Since 2008, she's been Director of national music charity, Community Music Wales (CMW), which has grown to become Wales's leading music participation charity with a reputation for excellence.

#### **12. Nicholas Saunders**

Nicholas is a music industry promoter and founder of The DEPOT and DEPOT Live. Responsible for bringing Nile Rodgers and CHIC to Cardiff Castle in 2019, and Foals in June 2020, Nick is also Director of Shangri-La Events booking internationally renowned acts such as Duke Dumont, MK, Jamie Jones, Patrick Topping and Pete Tong for venues across Cardiff, Liverpool, London and Ibiza.

#### **13. Andy Warnock**

Andy is the Regional Organiser for the Musicians' Union (MU) in Wales and South West England, based in Cardiff. The MU represents over 31,000 musicians working in the UK, negotiates with all the major employers in the industry, and offers services, benefits, and advice tailored to musicians' needs.

#### **14. Daniel Minty**

Founder of Minty's Gig Guide to Cardiff, Daniel is devoted to promoting the live music scene in Cardiff and Wales. He launched the Minty's Gig Guide to Cardiff map and weekly podcast with the aim of promoting all the venues that people can go to enjoy live music in Cardiff. Passionate campaigner and advocate for new and established talent, Minty is a freelance team member of BBC Wales scheme Horizons/Gorwelion.

#### **15. Sarah Hemsley-Cole**

Sarah is Company Director of SC Productions Ltd. Specialising in Site, Production, Event and Artist Liaison Management, SC Productions have delivered a range of events from large scale music

concerts to site specific theatre in stadiums, historic venues, green fields, city centres and theatres across the UK and Europe. Sarah is also co-founder of NOWIE – a primarily online forum for Women working in the Event Industry.

#### **16. Antwn Owen-Hicks**

A Portfolio Manager at Arts Council of Wales, Antwn's work includes the music portfolio, broadcast partnerships, Ffilm Cymru Wales and Arts & Business. He trained as a visual artist, but has a particular interest in developing traditional music, having recorded and toured as a traditional musician since 1995. He leads the Wales delegation at the annual Festival Interceltique de Lorient in Brittany.

#### **17. Adrian Field**

Executive Director of For Cardiff, Cardiff's Business Improvement District (BID) which covers 130 streets across the city, from Principality Stadium to Newport Road and Butetown to Cathays. One of the largest BID areas in the UK, comprising over 900 levy payers, the Ambassador scheme is one of the programmes of work the BID has planned for their 5 year strategy to make Cardiff more welcoming, vibrant and influential. Adrian has a keen interest in developing the live music scene in Cardiff as part of a thriving night time economy.

Other Cardiff Music Board positions are:

**Cllr Huw Thomas** – Leader of Cardiff Council –Chair

**Cllr Peter Bradbury** – Cabinet Member for Culture, Leisure and Tourism

**Ruth Cayford** – Creative Industries and Culture, Cardiff Council

**Heather Brown** – Events Development Officer, Cardiff Council

**Gerwyn Evans** - Deputy Director for Creative Wales, Welsh Government.

XX Rhagfyr 2019

Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn cyfarfod am y tro cyntaf

Cyfarfu Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd am y tro cyntaf heddiw.

Ddydd Llun, 16 Rhagfyr yn Neuadd y Ddinas cyfarfu 22 aelod y bwrdd, sydd â'r gwaith o fod yn bencampwyr dros fywyd cerddorol y ddinas. Eu gwaith yw gwarchod a hybu cerddoriaeth o'r amaturiaid i'r cerddorion proffesiynol, a datblygu Strategaeth Gerddorol i Gaerdydd.

Dyweddodd Cadeirydd y Bwrdd, y Cyngorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Mae hon yn foment arwyddocaol yn hanes diwylliannol Cymru, lle bydd gweithwyr proffesiynol y diwydiant a'r llywodraeth yn dechrau'r gwaith o wireddu'r uchelgais o droi Caerdydd, prifddinas Cymru yn Ddinas Gerddoriaeth Ryngwladol, yn cwmpasu pob arddull, o bob safon, ac i bob person sy'n byw yn y ddinas gyfan.

"Rydym yn uchelgeisiol dros ddyfodol cerddoriaeth yng Nghaerdydd. Mae'r sector gerddoriaeth eisoes yn gwneud llawer dros y ddinas, yn ddiwylliannol ac yn economaidd, ond rydym am wneud y mwyaf o'r gwerth hwnnw ac am harneisio gym cerddoriaeth er lles y ddinas a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynndi ac yn ymweld â hi.

"Bydd y Bwrdd Cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i gyflawni'r uchelgeisiau hynny. Roedd yr adroddiad 'Sound Diplomacy' a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn cynnig amlinelliad o'r ffordd y gall Caerdydd chwarae rhan flaenllaw yn y mudiad Dinasoedd Cerdd byd-eang, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â'r bwrdd am y tro cyntaf, a chlywed eu barn ar sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i yrru'r cynlluniau yma ymlaen.

Dewiswyd aelodau'r bwrdd i adlewyrchu amrywiaeth cymdeithasol Caerdydd, ac mae'n cynnwys un o DJs radio mwyaf blaenllaw Cymru, prif leisydd band byw ffrwydrol, cyfarwyddwr elusen cerddoriaeth gymunedol flaenllaw, ac un o'r tîm y tu ôl i gyflwyno polisi Cyfrwng Newid yng Nghymru.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cyngorydd Peter Bradbury: "Sector greadigol Caerdydd yw un o'i chryfderau - mae eisoes yn creu dros £1 biliwn o werth i'r economi ac mae twf sector cerddoriaeth fyw y DU yn golygu bod gwir gyfle yma i Gaerdydd - a chyda'r sgiliau a'r profiad amrywiol sydd gennym ar y bwrdd, rydym mewn lle da i fanteisio arni.

"Roedd cyflwyno Bwrdd Cerddoriaeth yn un o brif argymhellion yr adroddiad Sound Diplomacy, ac mae dau argymhelliaid arall, sef creu digwyddiad cerddorol o fri a chyflwyno parthau i gerddorion lwytho a dad-lwytho offer, ar yr agenda yn y cyfarfod cyntaf.

"Mae llawer o waith i'w wneud, ond mae'r cyfarfod cychwynnol hwn o'r bwrdd yn nodi carreg filltir bwysig yn ein cynlluniau i ymgorffori cerddoriaeth ym mhob agwedd o strwythurau dinesig Caerdydd, o gynllunio i drwyddedu, llesiant cymdeithasol a thwristiaeth."

**(diwedd)**

**Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd David Harris Ffôn: 029 2087 2409**

**E-bost: [davidharris@caerdydd.gov.uk](mailto:davidharris@caerdydd.gov.uk)**

NODIADAU I OLYGYDDION:

Aelodau'r bwrdd yw:

**1. Bethan Elfyn**

Cynhyrchydd radio llwyddiannus, cyflwynydd gyda'r BBC ac ymchwilydd teledu gydag ugain mlynedd o brofiad rheng flaen o gerddoriaeth newydd, Bethan sy'n arwain ar ddatblygu strategaeth partneriaeth gwerth cyhoeddus BBC Cymru Wales gyda Chyngor Celfyddydau Cymru - Horizons/Gorwelion - sef cynllun datblygu talent gerddorol i ddatblygu cerddoriaeth newydd, annibynnol a chyfoes yng Nghymru.

**2. Guto Brychan**

Yn Brif Weithredwr ar Glwb Ifor Bach ers 2012, daeth Guto yn Brif Weithredwr Gŵyl Sŵn yn ddiweddar ac mae'n trefnu Maes B yn flynyddol i'r Eisteddfod Genedlaethol. Guto yw un o brif hyrwyddwyr cerddoriaeth fyw yng Nghymru, yn cefnogi talent newydd yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Yn flaenorol, roedd yn Aelod Bwrdd ac yn Swyddog y Gymraeg yn y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ac yn Rheolwr Labeli gyda Recordiau Sain.

**3. Helia Phoenix**

Blogiwr llwyddiannus, awdur llyfrau, a newyddiadurwraig ym maes cerddoriaeth, teithio a diwylliant. Am yr ugain mlynedd diwethaf mae Helia wedi gweithio fel cynhyrchydd cynnwys, mewn radio ac ar ffilmiau dogfennol, ac mae wedi'i chyhoeddi yn y Guardian, y Rolling Stone ac eraill. Mae Helia yn cynnal un o'r blogiau dinesig mwyaf llwyddiannus yn y byd, ac yn 2017 cafodd ei henwi fel gweledydd yn rhestr Cardiff Life o'r 50 prif berson sy'n adeiladu dyfodol disgleiriach i'r ddinas. Ar hyn o bryd hi yw Rheolwr y Cyfryngau gyda Chroeso Caerdydd, yn rheoli'r cynnwys cymunedol a golygyddol.

**4. Jon Fox**

Mae gan Jon dros 25 mlynedd o brofiad mewn Cynllunio a Llunio Lleoedd ac ef yw ymgynghorydd yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth ar gynllunio a sŵn drwy Brydain. Fel Cynlluniwr Trefol roedd Jon yn rhan o'r tîm oedd yn gyfrifol am gyflwyno polisi Cyfrwng Newid yng Nghymru.

**5. Michael Garvey**

Mae gan Michael dros ugain mlynedd o brofiad o'r diwydiant cerddoriaeth a chelfyddydau, yn y sectorau masnachol, â chymhorthdal, cyhoeddus ac elusennol. Yn ystod ei yrfa mae wedi gweithio yn y diwydiannau recordio a darlledu, y system ariannu gyhoeddus yn Lloegr a'r sector

gerddorfeydd. Ef ar hyn o bryd yw Cyfarwyddwr Gweithredol cyntaf y Benedetti Foundation, elusen addysg gerddorol newydd.

## **6. Lucy Squire**

Mae Lucy yn gweithio yn y diwydiannau creadigol â chanddi gefndir cyfreithiol, a phrofiad o'r byd busnes ac addysg. Mae wedi chwarae rhan weithgar yn y byd cerddorol yn y De, ac mae wedi rhedeg busnesau llwyddiannus yn y byd manwerthu, hyfforddiant, nwyddau, labeli recordiau a digwyddiadau, yn fwyaf nodedig gyda'r brand Catapult oedd yn gweithredu o Arcedau Caerdydd tan 2014. Lucy ar hyn o bryd yw Pennaeth Cerddoriaeth gyda Phrifysgol De Cymru.

## **7. Phil Sheeran**

Fel Rheolwr Cyffredinol Arena Motorpoint Caerdydd, mae Phil wedi goruchwyllo rhan fawr o economi gerddorol y ddinas dros ddegawd a mwy, gan ddod ag artistiaid mawr rhyngwladol fel Kylie, y Pixies, One Direction a'r Who i'r ddinas. Mae Phil hefyd yn rheoli lleoliad newydd llai y Motorpoint - Exit 7. Mae hefyd yn aelod o'r gronfa gerddorol newydd ANTHEM ac yn aelod o fwrdd 'FOR Cardiff'.

## **8. Liz Hunt**

Mae Liz Hunt yn gerddor, yn gyfansoddwr caneuon, yn berchennog lleoliad ac yn drefnydd digwyddiadau. Gan ddechrau fel hyrwyddwr annibynnol, aeth ymlaen i weithio mewn nifer o leoliadau bychain yn trefnu gigs, ac mae ganddi bron i ugain mlynedd o brofiad o'r sîn gerddoriaeth yng Nghaerdydd. Mae Liz nawr yn gyd-berchennog ar The Moon, lleoliad nid-er-elw ar Stryd Womanby. Mae hefyd yn trefnu Hub Fest, Wales Goes Pop, Gŵyl Psych & Noise Caerdydd, a digwyddiadau rhwydweithio yn y diwydiant.

## **9. Gavin Allen**

Mae Gavin yn Ddarlithydd mewn Newyddiaduraeth Ddigidol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn gyn-Olygydd Cyswllt gyda Mirror.co.uk, mae hefyd wedi gweithio yn MSN a'r MailOnline. Yn ystod degawd gyda Media Wales treuliodd bedair blynedd yn ysgrifennu am gerddoriaeth ar y South Wales Echo.

## **10. Tumi Williams**

Mae Tumi yn ymarferydd creadigol, asiant archebu a threfnydd digwyddiadau ac ef yw prif leisydd Afro Cluster - grŵp sy'n enwog am eu cymysgedd unigryw a chyffrous o Afro-Funk a Hip Hop a'u sioeau byw ffrwydrol.

## **11. Hannah Jenkins**

Mae Hannah wedi gweithio yn y sector ddiwylliannol ers bron i ugain mlynedd, yn flaenorol fel Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau, yn creu rhaglenni ar gyfer nifer o leoliadau gan gynnwys

Sinema'r Neuadd Farchnad, Theatr y Beaufort a Theatr Gymunedol Abertyleri, yn ogystal â rheoli menter gelfyddydol gymunedol helaeth ledled Blaenau Gwent. Ers 2008 hi yw Cyfarwyddwr yr elusen gerddorol genedlaethol, Cerdd Gymunedol Cymru, sydd wedi tyfu yn un o elusennau cyfranogi cerddoriaeth fwyaf blaenllaw Cymru, gydag enw am ragoriaeth.

## **12. Nicholas Saunders**

Mae Nicholas yn hyrwyddwr yn y diwydiant cerddoriaeth ac yn sylfaenydd The DEPOT a DEPOT Live Yn gyfrifol am ddod â Nile Rodgers a CHIC i Gastell Caerdydd yn 2020, a'r Foals ym Mehefin 2020, mae Nick hefyd yn Gyfarwyddwr Shangri-La Events sydd wedi dod ag artistiaid enwog yn rhyngwladol fel Duke Dumont, MK, Jamie Jones, Patrick Topping a Pete Tong i leoliadau yng Nghaerdydd, Lerpwl, Llundain ac Ibiza.

## **13. Andy Warnock**

Andy yw Trefnydd Rhanbarthol Undeb y Cerddorion yng Nghymru a de-orllewin Lloegr, ac mae'n gweithio o Gaerdydd. Mae'r MU yn cynrychioli dros 31,000 o gerddorion sy'n gweithio yn y DU, yn negodi gyda'r prif gyflogwyr yn y diwydiant, ac yn cynnig gwasanaethau, buddion a chyngor wedi'u teilwra i anghenion cerddorion.

## **14. Daniel Minty**

Daniel yw awdur Canllaw Minty i Gigiau Caerdydd, ac mae wedi ymrwymo i hybu'r sîn gerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd a Chymru. Lansiodd fap 'Canllaw Minty i Gigiau Caerdydd' a phodlediad wythnosol gyda'r nod o hybu'r holl leoliadau y gall pobl fynd iddynt yng Nghaerdydd i fwynhau cerddoriaeth fyw. Yn ymgyrchyd ac eiriolwr brwd dros dalent hen a newydd, mae Minty yn aelod llawrydd o dîm Horizons/Gorwelion BBC Cymru.

## **15. Sarah Hemsley-Cole**

Sarah yw Cyfarwyddwr Cwmni SC Productions Ltd. Yn arbenigo ar reoli Safleoedd, Cynhyrchu, Digwyddiadau a Chysylltu gydag Artistiaid, mae SC Productions wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau o gyngherddau cerddorol ar raddfa fawr i theatr safle-benodol mewn stadia, lleoliadau hanesyddol, meysydd gwyrdd, canol dinasoedd a theatrau ledled y DU ac Ewrop. Sarah hefyd yw cyd-sylfaenydd NOWIE – fforwm ar-lein yn bennaf ar gyfer Menywod sy'n Gweithio yn y Diwydiant Digwyddiadau.

## **16. Antwn Owen-Hicks**

Rheolwr Portffolio yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yw Antwn. Mae ei waith yn cynnwys y portffolio cerddoriaeth, partneriaethau darlledu, Ffilm Cymru Wales a'r Celfyddydau a Busnes. Hyfforddodd fel artist gweledol, ond mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn datblygu cerddoriaeth draddodiadol, gan recordio a theithio fel cerddor traddodiadol ers 1995. Mae'n arwain dirprwyaeth Cymru yn y Festival Interceltique de Lorient yn Llydaw bob blwyddyn.

## **17. Adrian Field**

Cyfarwyddwr Gweithredol "For Cardiff", Ardal Gwella Busnes Caerdydd yw Adrian Field. Mae'n cynnwys 130 o strydoedd yn y ddinas, o Stadiwm y Principality i Heol Casnewydd ac o Butetown i Cathays. Yn un o ardaloedd gwella busnes mwyaf y DU, yn cynnwys dros 900 o dalwyr trethi, mae'r cynllun Cenhadon yn un o'r rhaglenni gwaith y mae'r Ardal wedi'i gynllunio ar gyfer eu strategaeth 5 mlynedd i wneud Caerdydd yn fwy croesawgar, bywiog a dylanwadol. Mae gan Adrian ddiddordeb byw mewn datblygu'r sîn gerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd fel rhan o economi'r nos ffyniannus.

Ymhlið aelodau eraill y Bwrdd mae:

**Y Cyngropydd Huw Thomas** (Cadeirydd) - Arweinydd Cyngor Caerdydd

**Y Cyngropydd Peter Bradbury** - Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Thwristiaeth

**Ruth Cayford** – y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, Cyngor Caerdydd

**Heather Brown** - Swyddog Datblygu Digwyddiadau, Cyngor Caerdydd

**Gerwyn Evans** - Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru